
# Sut ydyn ni'n deall Cwricwlwm i Gymru?

# Beth yw'r 'cwlwm'?

- Mae Cwricwlwm i Gymru yn cael ei ddeall a'i wireddu mewn ffyrdd gwahanol iawn (gweler adroddiad Cam 1, a gwaith y grŵp dylunio ar y cyd)
- Enghreifftiau o ddulliau dysgu ac addysgu: gwybodaeth rymus, dysgu meistrolgar, syniadau mawr, dylunio tuag yn ôl, tacsonomegau dysgu, dulliau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, dysgu drwy ymholiad
- Mae rhai o'r rhain yn cyd-fynd yn fwy cyflawn â Chwricwlwm i Gymru nag eraill

# Jenny Poskitt: gweithio gyda'n gilydd i greu eglurder



# Deall Cwricwlwm i Gymru

Dau gyd-destun pwysig:

- Tuedd ryngwladol *Cwricwlwm yr unfed ganrif ar hugain* (o ffocws ar gynnwys i ffocws ar ddatblygiad sgiliau'r unfed ganrif ar hugain gan ddysgwyr)
- Theori ac ymarfer cwricwlwm: cwricwlwm fel cynnwys, cynnyrch neu broses (Kelly, 2009)

"Mae angen bod yn glir ynghylch pa fodel sy'n cael ei ddefnyddio i sicrhau cydlyniad ac eglurder cysyniadol. Mae Kelly (1999) yn cynnig tri model archdeipaidd ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ac yn awgrymu bod cysylltiad annatod rhwng pob model a'r dibenion sylfaenol a'r cysyniadau o wybodaeth, yn ogystal ag addysgeg." (Priestley, 2019)

# Deall Cwricwlwm i Gymru

Cwricwlwm i Gymru fel:

- Rhan o duedd cwricwlwm yr unfed ganrif ar hugain
- Yn cyd-fynd yn llawn â'r cysyniad o gwricwlwm fel proses

# Cyd-destun 1: Tuedd Cwricwlwm yr 21ain Ganrif

**Yn adlewyrchu shifft:**

- O ragnodi cynnwys mewn dogfennau cwricwlwm i bwysleisio sgiliau, cymwyseddau a galluoedd i helpu dysgwyr i ddatblygu ffyrdd o feddwl, gweithio a byw yn y byd (Suto & Eccles, 2014)
- O ddulliau addysgu a dysgu sy'n canolbwyntio ar yr athro/athrawes i ganolbwyntio ar y dysgwr

**Yn adlewyrchu ffocws ar:**

- Ddatblygiad cymdeithasol, personol a chymeriad o fewn addysg eang, gyffredinol.

# Cyd-destun 1: Tuedd Cwricwlwm yr 21ain Ganrif

'Mae Cwricwlwm i Gymru yn cynrychioli symudiad polisi uchelgeisiol o bolisi cwricwlwm blaenorol, o ran ei athroniaeth a'r rôl y mae'n ei rhoi i ysgolion ac athrawon. Disgwylir i'r polisi cwricwlwm newydd roi mynediad cyfartal i bob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, i addysg eang a chytbwys o ansawdd uchel ym mhob maes dysgu. Ei nod yw helpu plant i wneud cynnydd trwy brosesau dysgu sy'n gyfannol ac yn rhyngddisgyblaethol, ac sy'n integreiddio gwybodaeth, sgiliau a phrofiad.'

Romain Viennet (OECD, 2020)

# Cyd-destun 2: modelau cwricwlwm

## Cwricwlwm fel Cynnwys (addysg fel trosglwyddiad) (Kelly, 2009)

- Mae penderfyniadau am yr hyn sy'n mynd i mewn i gwricwlwm yn dechrau gyda'r syniad bod gwybodaeth pwnc/disgyblaeth yn gynhenid werthfawr.
- Addysg fel trosglwyddo gwybodaeth oddi wrth yr athrawon i'r dysgwyr.
- Ffocws ar gynnwys pwnc gan dynnu ar ddisgyblaethau academaidd
- Trefnir y cwricwlwm o amgylch pynciau ysgol.

# Cyd-destun 2: modelau cwricwlwm

## Cwricwlwm fel Cynnyrch (addysg fel offerynnol) (Kelly, 2009)

- Wedi'i ddatblygu o ddull ymddygiadol o ddysgu, sy'n canolbwyntio ar newid ymddygiad
- Dysgu sy'n cael ei weld fel rhywbeth llinol: mae tystiolaeth o ddysgu yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n bodloni nodau ac amcanion
- Mae cynllunio'r cwricwlwm yn seiliedig ar amcanion/deilliannau: mae cyrhaeddiad yn cael ei 'fesur' drwy brofi perfformiad.
- Ystyrir bod gan yr ysgol ddiben offerynnol (mae'n ddefnyddiol o ran pa ddeilliannau y mae'n arwain atynt).

# Cyd-destun 2: modelau cwricwlwm

## Cwricwlwm fel Proses (addysg fel datblygiad) (Kelly, 2009)

Fe'i gelwir hefyd yn fodel 'datblygu dysgwyr' (McKernan, 2008, t.24)

- 'mae angen gweld y cwricwlwm fel profiad addysgol parhaus: proses, yn hytrach na chynnyrch. Hynny yw, fel profiad addysgiadol, yn hytrach nag ymddygiad, neu ganlyniad y profiad hwnnw' (McKernan, 2008, t.6)
- Addysg fel datblygu potensial yr unigolyn: yn canolbwyntio ar y dysgwr ac yn ystyried anghenion a diddordebau dysgwyr.
- Mae cwricwla prosesau wedi'u seilio 'ar y ddelwedd o'r hyn y dylai oedolyn ymreolaethol fod, a phroses ddysgu (yn aml yn ddeialegol, yn seiliedig ar ymholiad a thrwy brofiad) a allai fod yn llwybr i gyflawni'r cyflwr hwn… cwricwlwm i alluogi myfyrwyr i "ddod i bresenoldeb"… fel unigolion unigryw (Priestley & Humes, 2010)

# Cyd-destun 2: modelau cwricwlwm

## Pam fod y modelau hyn yn bwysig yn ymarferol?

1. Mae pob model cwricwlwm yn seiliedig ar ddamcaniaethau ac arferion addysgol gwahanol ac yn tynnu oddi arnynt, felly mae pob model yn awgrymu gwahanol ffyrdd o greu cwricwlwm mewn ymarfer ystafell ddosbarth.
2. Gall cwricwlwm, addysgeg ac asesu nad ydynt wedi'u halinio, olygu bod y cwricwlwm a addysgir yn edrych yn wahanol iawn i'r cwricwlwm a fwriedir
3. Gall diffyg aliniad hefyd effeithio ar gydlyniad y cwricwlwm: mae cwricwlwm cydlynol yn un sydd ag 'undod a chyswllt rhwng y nodau, y cynnwys, arferion cyfarwyddiadol, profiadau dysgu ac asesiadau' (Sullanma et al. 2019, t.210).

# Sut ydyn ni'n deall Cwricwlwm i Gymru?

Wrth symud ymlaen gyda'r deunyddiau hyn byddwn yn defnyddio dau derm i siarad am Gwricwlwm i Gymru a'i wireddu:

1. Cwricwlwm i Gymru fel un sydd â **chyfeiriadedd proses**
2. Mae gwireddu Cwricwlwm i Gymru yn ymarferol yn awgrymu defnyddio **dull proses** o ddysgu, addysgu, asesu a chynnydd.

# Ble nesaf?

## Prosiect Camau i'r Dyfodol: Trosolwg Deunyddiau Cymorth Ymarferol

Cyflwyniad → 1. Deall Cwricwlwm i Gymru → 2. Asesu a chynnydd mewn cwricwlwm a arweinir gan y dibenion → 3. Gwireddu'r cwricwlwm: o gyd-destunau cenedlaethol i gyd-destunau lleol

| | 1. Deall Cwricwlwm i Gymru | 2. Asesu a chynnydd mewn cwricwlwm a arweinir gan y dibenion | 3. Gwireddu'r cwricwlwm: o gyd-destunau cenedlaethol i gyd-destunau lleol |
|---|---|---|---|
| **Syniadau Allweddol** | **Mewnbwn:** Sut ydyn ni'n deall Cwricwlwm i Gymru?<br><br>**Mewnbwn (Seminar 1):** Y dull o weithredu'r cwricwlwm a dysgu sy'n canolbwyntio ar broses | **Mewnbwn (Seminar 2):** Ailfeddwl asesu: o fesur perfformiad i gefnogi dysgu<br><br>**Mewnbwn (Seminar 3):** Sut ydyn ni'n deall cynnydd? | **Mewnbwn:** Gwireddu'r cwricwlwm: safbwyntiau rhyngwladol |
| **Archwilio ymhellach** | Cydlyniant y cwricwlwm | Dysgu ac addysgu neu berfformiad a chyfarwyddyd | Cyfweliad gyda'r Athro Cyswllt Jenny Poskitt<br><br>Cyfweliad gyda'r Athro Chris DeLuca<br><br>Cyfweliad gyda'r Athro Kari Smith |
| **Meddwl ar waith** | Dulliau o greu cwricwlwm | M.O.T Cwricwlwm | Cyd-ddatblygu Cwricwlwm<br><br>Cyfathrebu gyda rhanddeiliaid<br><br>Diwylliant a meddylfryd |

# Cyfeirnodau

1. Kelly, A.V. (2009) The Curriculum: Theory and Process. New York, London, New Delhi: SAGE Publications Inc.

2. McKernan, J. (2008) Curriculum and Imagination: process, theory, pedagogy and action research. London & New York: Routledge.

3. Newton, N. (2020) The rationale for subsidiarity as a principle applied within curriculum reform and its unintended consequences. The Curriculum Journal 31(2): 215-230.

4. Priestley, M. & Humes, W. (2010) The development of Scotland's Curriculum for Excellence: amnesia and déjà vu. Oxford Review of Education, 36(3): 345-361

5. Priestley, M., Philippou, S., Alvunger, D. & Soini, T. (2021). Curriculum Making: A conceptual framing. In: M. Priestley, D. Alvunger, S. Philippou. & T. Soini, Curriculum making in Europe: policy and practice within and across diverse contexts. Bingley: Emerald https://www.storre.stir.ac.uk/retrieve/e68166a2-7fa0-4caa-b8d9-6e73d5fe7f59/Intro_curriculummaking.pdf

6. Priestley, M. (2019) Curriculum: concepts and approaches. Impact 6, Developing a broad and balanced curriculum. https://my.chartered.college/impact_article/curriculum-concepts-and-approaches/

7. Pritchard, A. (2018) Ways of learning: learning theories for the classroom. New York: Routledge.

8. Suto, I. & Eccles H. (2014) The Cambridge approach to 21st Century skills: definitions, development and dilemmas for assessment. IAEA Conference, Singapore. https://www.languagepoint.eu/wp-content/uploads/2022/09/461811-the-cambridge-approach-to-21st-century-skills-definitions-development-and-dilemmas-for-assessment-.pdf

9. Viennet, R. (2020) Implementation in focus: How Wales is turning a 21st century curriculum into reality. OECD Education and Skills Today. https://oecdedutoday.com/implementation-in-focus-wales-21st-century-curriculum-reality/

# Camau i'r Dyfodol

Cynnydd Dysgu i Gymru | Learning Progression for Wales

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

VIA VERITAS VITA
University of Glasgow